# Catapwlt

## BYDDI DI ANGEN:

3 ffon lolipop

13 pensil

Llwy blastig

LOT o fandiau elastig






1. Rho ffon lolipop rhwng 4 pensil – 2 ar y top a 2 ar y gwaelod - a'u clymu'n sownd gyda band elastig.




2. Gwna'r un peth ar y 3 chornel arall i greu siâp petryal. Yna, rho lot o fandiau elastig yng nghanol y petryal.



3. Nawr, rho ffon lolipop arall yn y canol, a'i droi sawl gwaith i greu digon o rym.



4. Rho'r llwy blastig ar dop y ffon lolipop a'i lapio 'da bandiau elastig.



5. Clyma 2 bensil gyda bandiau elastig i greu siâp triongl bob ochr o'r petryal, ac yna 1 pensil arall i gysylltu'r 2 driongl.